**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | M H Jones |
| S E Keeton | R D Lewis | N L Matthews |
| T M White | R A Williams | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Eilian Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Chris Healey | Arweinydd Tîm Ardal |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Amanda Pugh | Uwch-beiriannydd |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Bailey, A J Jeffery a/ac M B Lewis

---

## 51 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Y Cynghorydd R A Williams – Eitem 3 (2020/1492/FUL) – personol.

## 52 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

## 53 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl

Dim

**54 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio isod.

**#(Eitem 1) – Cais Cynllunio 2022/2796/FUL - Gwelliannau mynediad i gerbydau, adeiladu Cyflenwyr Adeiladu gan gynnwys storfa y tu allan ar gyfer deunyddiau a ffensys perimedr, 2 uned gyrru trwyddo (defnydd Dosbarth A1/A3), unedau B2/B8, ystafell farchnata ar gyfer cerbydau (defnydd unigryw) a datblygiad cysylltiedig ar dir y tu ôl i Dyffryn Close, Parc Menter Abertawe, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol manwl.

Anerchodd Dave Daycock (ar ran y gwrthwynebydd) a Matthew Gray (asiant) y pwyllgor.

Dosbarthwyd lluniau o faterion amrywiol yn ymwneud â llifogydd etc. ar y safle cyfagos gan y gwrthwynebydd i'r Aelodau a oedd yn bresennol ac fe'u dangoswyd ar-lein.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Mae ymateb ysgrifenedig pellach wedi ei gyflwyno ar ran y gwrthwynebydd yn codi materion amrywiol sydd wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

i) Mae'r safle mewn perygl llifogydd sydd wedi'i waethygu gan waith torri coed. Mae'r bwriad yn groes i TAN15 ac yn peri risg llifogydd i dir ac eiddo trydydd parti.
ii) Mae carthffosydd a draeniau anhysbys posib o fewn y safle.
iii) Llygredd safle sydd angen ymchwiliad pellach.
iv) Mae canclwm Japan ar y safle.

Mae'r materion uchod eisoes wedi cael sylw yn yr adroddiad

**(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2023/0220/FUL - Codi gât ffin flaen yn 70 Rhyd y Defaid Drive, Sgeti, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchodd Craig Davies (ymgeisydd) y Pwyllgor.

**(Eitem 3) – Cais Cynllunio 2020/1492/FUL - Newid defnydd hen ddepo bysus (Dosbarth B8) i ganolfan ailgylchu gwastraff preifat (Dosbarth B2) ar dir gerllaw'r hen ddepo bysus, New Road, Crofty, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.20 pm

**Cadeirydd**